Bat Conservation Trust

Annog ystlumod

Canllaw i arddio a byw sy'n gyfeillgar i ystlumod

Pipistrelle bat, © Hugh Clark

Mae llawer ohonom wedi treulio nosweithiau hir yn yr haf yn eistedd yn ein gerddi, yn gwylio wrth i ystlumod gymryd lle'r gwenoliaid yn awyr y cyfnos. Mae'r creaduriaid bach a rhyfeddol hyn yn aml yn byw yn agos at bobl, gan ddefnyddio gerddi fel ffynhonnell bwysig ar gyfer bwyd, dŵr a chysgod.

Yma rydym yn cynnig cyngor ar greu hafan i ystlumod yn eich gardd, ynghyd â rhai awgrymiadau ar sut i nodi'r ymwelwyr nosol hyn.

Garddio er budd ystlumod

Gall gerddi fod yn lleoedd hyfryd i bobl a bywyd gwyllt, yn enwedig ystlumod. Mae gardd sy'n dda i bryfed yn dda i ystlumod, gan mai dim ond pryfed fel gwybed, gwyfynod, mosgitos a chwilod y mae'r ddwy rywogaeth ar bymtheg o ystlumod Prydeinig yn eu bwyta. P'un ai oes gennych ardd fechan mewn dinas neu aceri yng nghefn gwlad, gallwch wneud eich rhan i helpu ystlumod.

Mae angen pryfed ar ystlumod

Mae angen llawer o egni i hedfan, felly mae angen llawer o fwyd ar ystlumod! Er enghraifft, gall ystlum lleiaf cyffredin bach fwyta tua 3,000 o wybed, mosgitos a phryfed bach eraill mewn un noson. Mae gwyfynod, chwilod a phryfed cannwyll yn boblogaidd iawn gyda rhywogaethau gwahanol, ond pryfed yw'r prif fwyd i'r rhan fwyaf o ystlumod Prydeinig.

Mae'r rhan fwyaf o blanhigion yn dibynnu ar bryfed

Rydym yn tyfu blodau yn ein gerddi er ein mwynhad ein hunain, ond eu lliw a'u harogl yw ffordd y planhigion o hysbysebu eu hunain i bryfed. Mae neithdar melys a phaill yn llawn protein yn abwyd i annog pryfed i ymweld. Yn gyfnewid am hynny, mae'r pryfed yn cario paill ar eu corff o un blodyn i un arall er mwyn ffrwythloni'r blodau. Er mwyn cael gardd bywyd gwyllt lwyddiannus mae angen cynnwys digon o blanhigion a fydd yn denu pryfed, a sicrhau bod gan eich gardd gyflenwad da o bryfed o'r gwanwyn i'r hydref.

Dewis y planhigion cywir

Er mwyn cael gardd bywyd gwyllt lwyddiannus mae angen cynnwys amrywiaeth eang o blanhigion a fydd yn denu pryfed, a thrwy blannu cymysgedd o blanhigion blodeuol, llysiau, coed a phrysgwydd, gallwch annog amrywiaeth o bryfed i alw heibio i godi paill o'r gwanwyn i'r hydref. Mae planhigion brodorol yn dueddol o ddenu llawer mwy o rywogaethau o bryfed na phlanhigion cymysgryw neu egsotig, felly dylid eu defnyddio cymaint â phosibl.

Gall planhigion gwahanol ddenu amrywiaeth o bryfed mewn gwahanol ffyrdd. Mae gwyfynod yn ymweld â blodau â thiwb petalau cul hir, fel melyn-yr-hwyr a gwyddfid; dim ond eu tafodau hir hwy a all gyrraedd yn ddwfn i lawr i'r neithdar cuddiedig. Mae pryfed â thafodau byr yn cynnwys llawer o deuluoedd o glêr a rhai gwyfynod; dim ond neithdar mewn blodau â blodigion byr y gallant eu cyrraedd.

Ceisiwch gynnwys rhai o'r canlynol:

- Blodau sydd yn amrywio o ran lliw ac arogl, yn ogsytal â siâp.
- Blodau gwelw sy'n haws eu gweld mewn golau gwael, felly'n denu pryfed gyda'r cyfnos.
- Blodau unigol, sy'n dueddol o greu mwy o neithdar na'r math dwbl.
- Blodau â llwyfannau er mwyn i bryfed lanio arnynt a blodigon byr, fel rhai mewn teuluoedd llygad y dydd neu foron.

Gall y rhestr planhigion ar y dudalen nesaf roi ychydig o syniadau i chi, er mai'r dull gorau yn aml yw gwylio a gweld pa bryfed sy'n bwydo ar ba blanhigion.

Gofalu am eich ymwelwyr

Problem y mae ystlumod yn aml yn ei wynebu mewn gerddi yw cathod. Os oes gennych gath, gallwch helpu i arbed bywydau yr haf hwn drwy ddod â'ch cath i mewn hanner awr cyn iddi fachlud. Bydd hyn yn galluogi'r ystlumod i ddod allan o'u clwydfannau heb darfu arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ganol mis Mehefin i ddiwedd mis Awst, pan mae'r ystlumod yn magu eu babanod. Bydd yr ystlumod hefyd yn gallu dychwelyd gyda'r wawr heb i gathod aflonyddu arnynt. Os byddwch yn canfod ystlum sy'n ymddangos ei fod wedi'i anafu gan gath, ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) i gael manylion eich gofalwr ystlumod agosaf.

Plannu coed a phrysgwydd

Mae'r rhain yn bwysig o ran darparu bwyd i larfaod pryfed a phryfed oedolion, cysgod i bryfed sy'n hedfan a chyfleoedd i ystlumod glwydo. Mewn gerddi bach, dewiswch goed y gellir eu bôn docio – torrwch i'r tir bob ychydig o flynyddoedd – i alluogi sbrigynnau newydd i dyfu o'r bôn. Bydd sbrigynnau a dail ifanc yn cynorthwyo pryfed sy'n bwyta dail, hyd yn oed os nad ydynt yn creu blodau, a bydd bylbiau yn blodeuo o dan y canopi is.

Crëwch ardal wlyb

Ni fyddai unrhyw ardd bywyd gwyllt yn gyflawn heb nodwedd dŵr. Bydd pwll bach, ardal gorsiog neu hyd yn oed gardd gors yn rhoi rhywle i ystlumod yfed, yn ogystal â denu pryfed, gan fod llawer o'r clêr bach y mae ystlumod yn eu hoffi yn dechrau eu bywyd mewn dŵr fel larfaod dyfrol. Gellir plannu planhigion ymylol o gwmpas y pwll i greu ymylon meddal ac annog pryfed ymhellach. Dylid osgoi pysgod aur yn bendant gan eu bod yn bwyta'r larfaod pryfed.

Gwnewch bentwr compost neu bentwr coed

Ailgylchwch wastraff y gegin a'r ardd – megis gweddillion ffrwythau a llysiau, chwyn blynyddol a thoriadau'r ardd – i greu compost gardd defnyddiol, yn ogystal â chynefin delfrydol i bryfed. Bydd pentwr coed mewn man llaith, cysgodol hefyd yn annog pryfed, yn enwedig chwilod.

Ceisiwch osgoi defnyddio plaladdwyr

Mae plaladdwyr cemegol yn lladd ysglyfaethwyr naturiol ac felly gallant wneud mwy o niwed na daioni. Maent yn lleihau ysglyfaeth pryfed ystlumod, a bydd y pryfed sy'n goroesi yn cario olion o wenwyn.

Annog ysglyfaethwyr naturiol

Mae pryfed hofran, buchod coch gota, adenydd siderog, chwilod y tir a nadroedd cantroed yn gyfeillion i'r garddwr, ac yn rheolwyr plâu naturiol. Dilynwch yr awgrymiadau hyn a helpu i gynnal cydbwysedd naturiol:

- Gadewch i rai chwyn dyfu i ddarparu gorchudd tir i ysglyfaethwyr naturiol.
- Gadewch i blanhigion coesau gwag aeafu fel cysgod i fuwch goch gota.
- Gadewch bentyrau o ddail marw a phrysgwydd heb aflonyddu arnynt i ddraenogod.
- Rhowch fwyd a diod rheolaidd i adar yr ardd, gan eu bod hwy hefyd yn ysglyfaethwyr effeithiol.

Pa blanhigion y dylwn eu dewis?

Dylai garddwyr sy'n gyfeillgar i ystlumod geisio plannu cymysgedd o blanhigion blodeuol, llysiau, coed a phrysgwydd i annog amrywiaeth o bryfed, a all yn eu tro ddenu rhywogaethau ystlumod gwahanol. Mae blodau sy'n blodeuo drwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys planhigion blynyddol a lluosflwydd llysieuol, yn syniad da: mae blodau sy'n blodeuo yn y nos yn arbennig o apelgar. Mae coed a phrysgwydd yn syniad da, gan y byddant yn darparu bwyd i bryfed a hefyd yn rhoi cyfleoedd clwydo i ystlumod.

Rhestrir brasamcan o gyfnodau blodeuo isod, er y gallant amrywio yn ôl ardal a'r tywydd!

Blodau ar gyfer borderi

*Cynfas biws (gwanwyn i ddechrau'r haf)
*Clychau'r gog (gwanwyn)
*Beryn yr ardd (haf i'r hydref)
*Blodyn heuldro (haf i'r hydref)
Bulwg yr ŷd
Glas yr ŷd
Melyn yr ŷd
Llygad y bwgan
*Ecinacea
*Melyn-yr-hwyr (haf i'r hydref)
Llygad y cythraul (haf)
*Swllt dyn tlawd (gwanwyn)
*Rhewlys (dechrau'r hydref)
Y bengaled (haf i'r hydref)
Hocysen (haf i'r hydref)
*Comos Mecsico (haf i'r hydref)
*Blodyn Mihangel (haf i'r hydref)
*Murwyll yr hwyr (haf)
Llygad llo mawr (haf)
*Ffaselia (haf i'r hydref)
*Melyn ŵy (haf)
Briallu (gwanwyn)
Blodyn neidr (gwanwyn)
*Triaglog goch (haf i'r hydref)
Clafrllys (haf)
Eurinllys (gwanwyn)
*Penigan barfog (haf)
*Planhigyn tybaco
*Y Ferfain (haf i'r hydref)
*Blodau'r fagwyr (gwanwyn i ddechrau'r haf)
Ysgorpionllys y coed (gwanwyn)
Milddail (dechrau'r haf)

Mae planhigion wedi'u nodi â * yn blanhigion cymysgryw neu egsotig a allai fod yn ddefnyddiol yn yr ardd

Perlysiau (mae'r dail a'r blodau yn bersawrus)

Llysiau'r angel pêr
Bergamot (haf i ddechrau'r hydref)
Tafod yr ych (gwanwyn i ddechrau'r hydref)
Coriander (haf)
Ffenigl (haf i ddechrau'r hydref)
Y wermod wen (haf i'r hydref)
Gold Lloegr
Isop (haf i ddechrau'r hydref)
Lafant
Balm lemon
Mintys y graig (haf)
Rhosmari (gwanwyn)
Creithig Bêr (gwanwyn i ddechrau'r haf)
Teim (haf)

Pethau i'w cofio

- Mae gerddi heb blaladdwyr yn dueddol o fod yn well i fywyd gwyllt ac ystlumod.
- Ble bynnag y bo'n bosibl, ceisiwch ddewis planhigion a choed brodorol – maent yn denu mwy o fywyd gwyllt na phlanhigion cymysgryw ac egsotig.
- Peidiwch byth â phalu planhigion o'r gwyllt. Prynwch blanhigion brodorol gan gyflenwyr parchus sy'n bridio eu stoc eu hunain.
- Defnyddiwch gompost heb fawn neu gyda deunydd amgen fel rhisgl. Mae echdyniadau mawn yn anghynaliadwy ac yn niweidio ein cynefinoedd cors unigryw yn ddifrifol. Gall garddwyr helpu drwy leihau'r galw am y cynnyrch hwn.
- Mae creu amrywiaeth o gynefinoedd fel pwll, gardd lysiau a gwrychoedd yn gwneud eich gardd yn fwy deniadol i bryfed ac yn eu tro, ystlumod.
- Ewch â chadair allan, rhowch eich traed i fyny a gwyliwch eich gardd yn dod yn fyw!

Coed, prysgwydd a phlanhigion dringo

Mieri (planhigyn dringo)
*Coeden fêl (prysgwydden)
Coeden glocs gyffredin (addas ar gyfer bôn docio)
Rhosyn gwyllt (planhigyn dringo)
Ysgawen (bach)
Derwen Lloegr (gerddi mawr yn unig)
Eithin (prysgwydd)
Corswigen (prysgwydd)
Draenen wen (addas ar gyfer bôn docio)
Coeden gyll (addas ar gyfer bôn docio)
Gwyddfid (gwyddfid brodorol)
Oestrwydden
Eiddew (planhigyn dringo)
*Jasmin (nos-bersawrus)
Helygen y gors (addas ar gyfer bôn docio)
Criafolen
Bedwen arian

Blodau gwyllt ar gyfer ymylon pyllau ac ardaloedd corsiog

Drewgoed cors
Corn glas
Canclwyf (gwanwyn i'r haf)
Eiddew gellesgen
Bydon chwerw (haf)
Melin geitlen (gwanwyn i'r haf)
Dail yr hocys
Gold y gors (gwanwyn)
Briwlys y gors
Erwain (haf i ddechrau'r hydref)
Gwyarllys (haf)
Mapgoll
Ysgorpionllys y dŵr (haf i'r hydref)
Mintys y dŵr (haf i'r hydref)

Blychau ystlumod

Clwydfannau artiffisial yw blychau ystlumod, fel arfer wedi'u gwneud o goed neu gymysgedd o naddion pren a choncrid. Maent wedi'u cynllunio i annog ystlumod i ardaloedd lle nad oes llawer o glwydfannau naturiol, fel tyllau cnocell y coed mewn coed. Mae gan flychau ystlumod le defnyddiol mewn cadwraeth ystlumod, ond dylid cofio nad yw ystlumod mor barod i glwydo mewn blychau ag adar.

Mae cynlluniau amrywiol o flychau ystlumod ar gael yn fasnachol. Mae blychau pren fel arfer mewn siâp ciwb neu ffurf lletem, gydag 'ysgol ystlumod' rhigolog a hollt mynediad cul ar y gwaelod. Gellir hoelio'r rhain i goed neu waliau. Daw'r blychau pren mewn dau fath sylfaenol: naill ai silindrog gyda thwll mynediad ar y blaen ac wedi'i gynllunio i gael ei hongian ar ganghennau coed gyda dolen wifr; neu mewn siâp bric, fel arfer gyda holltau clwydo cul y tu mewn a hollt mynediad ar y gwaelod, wedi'i gynllunio i'w osod ar arwynebau gwastad fel waliau adeiladau. Oherwydd bod gan rywogaethau wahanol ofynion, rydych yn llawer mwy tebygol o ddenu ystlumod i'ch blychau os byddwch yn gosod rhai o bob math.

Nid yw ystlumod yn hoff o ddrafftiau, ac mae'n well ganddynt flychau sydd wedi'u hinswleiddio yn dda lle mae tymheredd a lleithder yn parhau'n gyson. Felly mae uniadau wedi'u selio yn dda yn bwysig, yn ogystal ag osgoi paneli blaen mawr, llac. Dylid osgoi caeadau y gellir eu tynnu, eto i leihau drafftiau, ond hefyd i atal aflonyddwch neu niwed anfwriadol i ystlumod wrth agor y blwch. Mae angen trwydded arbennig i aflonyddu ar ystlumod neu i'w trin yn y Deyrnas Unedig, ac mae unrhyw aflonyddu heb drwydded yn anghyfreithlon. Am ragor o wybodaeth am ystlumod a'r gyfraith ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228).

Dylai pob darn o bren a ddefnyddir mewn blychau ystlumod fod wedi'u llifio'n fras i alluogi ystlumod i gydio a dringo, ac mae'n rhaid iddynt hefyd fod heb eu trin, gan fod ystlumod yn sensitif iawn i gemegau a ddefnyddir i drin coed. Mae 'ysgol ystlumod' neu ardal lanio arall yn hanfodol, yn ogystal â hollt mynediad digon llydan i adael ystlumod i mewn ond yn ddigon cul i gadw ysglyfaethwyr allan.

Mae bylchau yn fwy tebygol o gael eu defnyddio os cânt eu lleoli mewn ardaloedd lle mae ystlumod yn bwydo. Mae coetiroedd, parcdiroedd a glannau afonydd yn lleoedd da, yn ogystal â gerddi sy'n agos i byllau, afonydd neu barciau. Os yn bosibl, dylent fod yn agos i wrych neu linell coed, gan fod rhai rhywogaethau o ystlumod yn defnyddio'r rhain i lywio ac nid ydynt yn hoff o groesi mannau agored i fynd yn ôl ac ymlaen i glwydfannau. Dylai mynediad yr ystlumod i'r blwch fod yn glir o unrhyw rwystrau, fel canghennau coed; dylai blychau gael eu lleoli mor uchel â phosibl (o leiaf 4 neu 5 medr uwchlaw lefel y tir), nid yn unig i sicrhau cael y mwyaf posibl o olau'r haul ar y blwch ar gyfer cynhesrwydd ond hefyd i sicrhau eu bod yn ddiogel rhag cathod neu bobl sy'n fandaleiddio.

Yn ddelfrydol, dylai dau neu dri blwch gael eu clystyru gyda'i gilydd, yn wynebu cyfeiriadau gwahanol er mwyn galluogi ystlumod i ddewis tymheredd clwydo amrywiol ar wahanol adegau o'r flwyddyn – yn wynebu'r de, de-ddwyrain a de-orllewin os yn bosibl. Ceisiwch osgoi gosod blychau sy'n wynebu'r gorllewin, gan mai dyma brif gyfeiriad y gwynt a'r glaw!

Mae angen amser ar ystlumod i ddod o hyd i gartrefi newydd a'u harchwilio, a gall fod yn sawl blwyddyn cyn y bydd preswylwyr yn y blychau – byddwch yn amyneddgar! Mae baw ar ardaloedd glanio, staeniau wrin o gwmpas rhannau gwaelod y blychau a synau parablus o'r tu mewn ar brynhawniau a nosweithiau cynnes yn arwyddion bod ystlumod wedi ymgartrefu. Cofiwch beidio ag aflonyddu ar ystlumod drwy agor y blwch neu fynd yn rhy agos pan fyddant yno, er bod eu gwylio'n dod allan yn ystod y cyfnos yn aml yn olygfa ryfeddol.

Gwylio ystlumod

Dyma ganllaw i'r rhywogaethau o ystlumod rydych fwyaf tebygol o'u gweld o amgylch eich gardd, yn enwedig wrth iddi ddechrau tywyllu.



Mae'r **ystlum lleiaf** yn ymddangos tua machlud haul, a'r rhain yw'r ystlumod rydych fwyaf tebygol o'u gweld. Maent yn hedfan yn afreolaidd – yn troi o amgylch adeiladau, goleuadau stryd, coed a gwrychoedd. Mae tair rhywogaeth o ystlumod lleiaf sy'n edrych yn debyg iawn: yr ystlum lleiaf cyffredin, yr ystlum lleiaf soprano a'r un mwy prin, yr ystlum lleiaf Nathusius.

Un o'n hystlumod eraill yw'r **ystlum hirglust**. Daw ystlumod hirglust allan yn y nos, ac maent fel arfer yn hedfan yn agos iawn i goed, gan eu gwneud yn anodd eu gweld. Maent yn hedfan yn araf ac yn hofran, ychydig fel glöyn byw mawr.



Yr **ystlum mawr** yw un o'n hystlumod mwyaf; mae'r ystlum mawr yn ymddangos gyda'r nos, wrth iddi ddechrau tywyllu. Weithiau gellir eu gweld yn hedfan mewn llinell syth, yn uchel iawn. Maent tua'r un maint â drudwen, ac mae eu hadenydd cul yn eithaf nodedig.

Os byddwch yn gweld ystlum yn hedfan yn isel iawn dros ddŵr, yn gwibio dros yr arwyneb fel llong hofran fach **ystlum y dŵr** ydyw. Edrychwch ar ystlumod y dŵr yn ofalus achos efallai y gallwch eu gweld yn cyffwrdd ag arwyneb y dŵr i afael mewn pryfyn gyda'u traed blewog mawr.

Yr ystlum lleiaf – Hugh Clark; Ystlum hirglust – J J Kaczanow; Ystlum mawr – R E Stebbings; Ystlum y dŵr – J J Kaczanow

Y ffordd orau o brofi byd nosol cyfrinachol yr ystlumod yw defnyddio canfodydd ystlumod. Mae'r dyfeisiadau anhygoel hyn yn eich galluogi i wrando ar alwadau ystlumod, sydd fel arfer ar draw rhy uchel i bobl eu clywed – gydag ychydig o ymarfer mae'n bleser gallu gwahaniaethu rhwng rhywogaethau gwahanol o ystlumod! Mae'n debygol y bydd eich grŵp ystlumod lleol yn cynnal teithiau a thrafodaethau ar ystlumod drwy gydol misoedd yr haf i roi cyflwyniad i'r creaduriaid rhyfeddol hyn a sut i'w hadnabod.

Os ydych yn gweld ystlumod yn eich gardd yn rheolaidd, mae'n bosibl bod ystlumod yn clwydo yn eich cartref, neu efallai yn un o dai eich cymdogion. Ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod **(0845 1300 228)** i ofyn am gopi o'r llyfryn 'Byw gydag ystlumod', sy'n rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud os ydych yn rhannu'ch cartref gydag ystlumod. Bydd y Llinell Gymorth Ystlumod hefyd yn gallu rhoi manylion i chi am eich grŵp ystlumod agosaf, a hefyd rhagor o wybodaeth am gymryd rhan yn ein harolygon ystlumod yn yr haf – os ydych yn mwynhau gwylio a gwrando am ystlumod, beth am gofrestru ar gyfer ein Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod a'n helpu i gyfrif ystlumod y Deyrnas Unedig?

Y dyfodol i ystlumod

Mae'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod / Bat Consevation Trust (BCT) yn awyddus i weld dyfodol lle gall pawb, ym mhob man, fwynhau gweld a chlywed ystlumod fel rhan naturiol o'u hamgylchedd.

Rydym yn dibynnu ar y cyhoedd, nid yn unig am arian i helpu i gadw ystlumod a'u cynefinoedd, ond hefyd i ddarparu'r data sy'n llywio'r gwaith cadwraeth hwnnw. Os hoffech ein helpu gyda'r gwaith pwysig hwn, gallwch wneud hynny drwy gymryd rhan yn ein harolygon ystlumod yn yr haf. Am ragor o wybodaeth ac i gael ffurflen arolwg, ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod (0845 1300 228) a gofynnwch am y Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod.

Gyda'ch cymorth chi, gallwn wneud yn siŵr y bydd ystlumod yn cael eu gwarchod fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu mwynhau. Dewch yn aelod o'r BCT heddiw, gan gynorthwyo i warchod y mamolion rhyfeddol hyn. Gallwch ymuno â'r ymddiriedolaeth ar-lein ar www.bats.org.uk, neu gallwch gysylltu â ni trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod. Hefyd, fe all y BCT roi manylion ichi am eich grŵp ystlumod agosaf.

Cysylltiadau defnyddiol

The Bat Conservation Trust (BCT)

15 Cloisters House, 8 Battersea Park Road, Llundain SW8 4BG
Ffoniwch y Llinell Gymorth Ystlumod heddiw ar **0845 1300 288** neu ewch i **www.bats.org.uk**
E-bost **enquiries@bats.org.uk**

Cysylltwch â BCT i gael rhagor o wybodaeth am arddio er budd ystlumod, cyngor ar flychau ystlumod, i gymryd rhan yn ein Rhaglen Genedlaethol Monitro Ystlumod ac i gael manylion am eich grŵp ystlumod neu ofalwyr ystlumod lleol.

Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol (SNCO)

Natural England
Ffôn 0845 600 3078
Gwefan www.naturalengland.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ffôn 08451 306 229
Gwefan www.ccw.gov.uk

Scottish Natural Heritage
Ffôn 0131 447 4784
Gwefan www.snh.gov.uk

Environment & Heritage Service
(Gogledd Iwerddon)
Ffôn 02890 546558
Gwefan www.ehsni.gov.uk

Gyda diolch i Natural England, Scottish Natural Heritage a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am eu cymorth wrth gyhoeddi'r llyfryn hwn; i Dr Sue Swift am y wybodaeth am flychau ystlumod; ac i Mammals Trust UK am gefnogi'r prosiect blychau ystlumod.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod yn elusen gofrestredig (rhif 1012361) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (cofrestrwyd yn Lloegr, rhif 2712823)